OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 68 (Cy.6)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2005

Wedi'i wneud	-	-	*18 Ionawr 2005*
Yn dod i rym	-	-	*21 Ionawr 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 7(1) a (4) a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod o'r farn y caiff Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a chan gofio am ei amcanion cyffredinol, gyflawni yn briodol y swyddogaethau ychwanegol a roddir iddo drwy hyn ac ar ôl ymgynghori fel y mae'n ymddangos iddo ei fod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2005 a daw i rym ar 21 Ionawr 2005.

Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2002

2. Diwygir Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000(**3**) fel a ganlyn.

3. Yn erthygl 2 —

(a) hepgorer y diffiniad o "Deddf 1988";

(b) yn lle'r diffiniad o "athro neu athrawes gymwysedig" rhodder y diffiniad canlynol —

"mae i "athro neu athrawes gymwysedig" yr un ystyr ag a roddir i "*qualified teacher*" yn adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002(**4**);".

4. Yn Rhan II o'r Atodlen —

(**1**) 1998 p.30. Mae'r darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adrannau 8 a 9 o'r Ddeddf a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/1941 (Cy.139) a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/2497 (Cy.201).
(**4**) 2002 p.32. *Gweler* Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) 2004, O.S. 2004/1729 (Cy. 173).